**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

27 Mawrth 2025

Annwyl Lywydd,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes, ar 18 Chwefror, wedi cytuno i wahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo (y "Memorandwm"), a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 2 Mai.

Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 19 Mawrth. Mae'r Memorandwm yn datgan bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 38 ac 51. Nodwyd bod cymal 51 yn ymwneud â dilysu ffioedd a godir mewn perthynas â chydnabod cymwysterau proffesiynol, sydd y tu allan i'n cylch gwaith.

Nodwyd bod y Memorandwm, mewn perthynas â chymal 38, yn ymwneud â diddymu'n benodol adrannau 4, 20, 21, 57 ac 58 o Ddeddf Mudo Anghyfreithlon 2023. Er ein bod yn nodi y gallai'r adrannau hyn fod wedi cael effaith ar swyddogaethau awdurdodau lleol, rydym o'r farn y byddai'n afresymol inni adrodd ar bob un o Filiau'r DU neu'r Senedd a allai gael effaith ar ddyletswyddau a phwerau awdurdodau lleol Cymru.

Nodwyd hefyd y bydd y Memorandwm yn cael ei drafod gan y tri phwyllgor arall y cafodd ei gyfeirio atynt. Ar y sail honno, ac am y rhesymau eraill a amlinellir uchod, rydym wedi penderfynu peidio ag adrodd ar y Memorandwm hwn. Mae hyn yn unol â'n dull blaenorol o drin y Memorandwm ar y Bil Mudo Anghyfreithlon.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y pwyllgorau eraill y cyfeiriwyd y Memorandwm atynt er gwybodaeth.

Yn gywir,

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.